**Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon, a Chysylltiadau Rhyngwladol**
—
**Culture, Communications, Welsh Language, Sport, and International Relations Committee**

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddDiwylliant@senedd.cymru
senedd.cymru/SeneddDiwylliant
0300 200 6565
—
**Welsh Parliament**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddCulture@senedd.wales
senedd.wales/SeneddCulture
0300 200 6565

Brian Davies OBE, Prif Weithredwr
Y Farwnes Tanni Grey-Thompson, DBE, DL, Cadeirydd
Chwaraeon Cymru

10 Tachwedd 2025

## Craffu blynyddol ar waith Chwaraeon Cymru

Annwyl Brian a Tanni

Rydym yn ddiolchgar i Chwaraeon Cymru am ddod i gyfarfod y Pwyllgor ar 25 Medi 2025 ar gyfer y gwaith craffu blynyddol. Hoffem ddiolch ichi am roi o'ch amser, ac am y dystiolaeth a rannwyd gennych gyda'r Pwyllgor. Fel y gwnaethom sôn ystod y sesiwn, mae un neu ddau fater pellach yr oeddem am eu codi gyda chi, na chawsom amser i'w wneud yn ystod y sesiwn. Rydym yn mynd i'r afael â'r materion hynny isod.

### Chwaraeon fel arf ataliol

Roedd yn destun syndod a siom inni glywed nad oedd Llywodraeth Cymru wedi trafod y cyfraniad y gall Chwaraeon Cymru ei wneud at statws newydd Cymru fel Cenedl Marmot gyda chi. Mae'r cysylltiad rhwng chwaraeon ac egwyddor Marmot o atal afiechyd yn glir. Gwyddom ei bod hi'n llawer rhatach buddsoddi mewn atal nag ydyw i ddelio â chanlyniadau afiechyd.

Rydym o'r farn y dylai Llywodraeth Cymru weithio gyda Chwaraeon Cymru i gynyddu rôl chwaraeon wrth atal afiechyd, er mwyn cyflawni'r ymrwymiad y mae Llywodraeth Cymru wedi'i wneud drwy ddatgan ei hun yn Genedl Marmot.

Byddwn yn parhau i fynd ar drywydd hyn gyda Llywodraeth Cymru, ac rwyf wedi copïo'r llythyr hwn at y Gweinidog dros Ddiwylliant, Sgiliau a Phartneriaeth Gymdeithasol.

### Gwerthusiad o ddull buddsoddi newydd Chwaraeon Cymru

Nodwn y canlynol yn eich Adroddiad Blynyddol ar gyfer 2023-24:

*"... aethom ati i ddechrau cynnal gwerthusiad llawn o'n dull buddsoddi sy'n cael ei sbarduno gan ddata a roddwyd ar waith o 2020 ymlaen."*

Yn y Pwyllgor, fe ddisgrifioch chi'r adolygiad o'ch model buddsoddi fel darn o waith sy'n parhau i fynd rhagddo. Fe egluroch chi, hefyd, fod y newid yn y model buddsoddi wedi bod yn drawsnewidiad go iawn, gydag effeithiau gwahanol i'w gweld ar gyllid cyrff llywodraethu cenedlaethol.

Credwn, o ystyried yr effaith hon, y byddai'r sector yn elwa o'r tryloywder a ddarperir gan adolygiad cyhoeddedig o fodel buddsoddi Chwaraeon Cymru.

Bydd y Pwyllgor yn parhau i fynd ar drywydd hyn gyda Llywodraeth Cymru.

### Cyfyngiadau cyllidebol

Nodwyd eich sylwadau ar y lefel isel o gyllid i Chwaraeon Cymru o'i gymharu â chynghorau chwaraeon eraill:

"*The top-line figure to put us in a comparable state to the other home country sports councils would be about £20 million a year. To put us in line with the average for European countries, it would be £200 million.*"

Dangosodd dadansoddiad blaenorol gan Ymchwil y Senedd (a ddefnyddiwyd gennym yn ein ymholiad i effaith gostyngiadau cyllid ar ddiwylliant a chwaraeon) fod cyllid cyhoeddus ar gyfer chwaraeon yng Nghymru ymhlith y lefelau isaf yn Ewrop. Fe wnaethom alw ar Lywodraeth Cymru i gynyddu'r cyllid ar gyfer diwylliant a chwaraeon hyd nes ei fod yn gymaradwy (o ran gwariant y pen) â chyllid gwledydd tebyg.

Fe fyddwn ni'n codi'r mater hwn fel rhan o'n craffu ar gyllideb ddrafft Llywodraeth Cymru yn yr wythnosau nesaf.

Diolch unwaith eto am ymddangos gerbron Pwyllgor ac am eich sylwadau gwerthfawr.

Fel y nodwyd eisoes, rwy'n anfon copi o'r llythyr hwn at y Gweinidog dros Ddiwylliant, Sgiliau a Phartneriaeth Gymdeithasol.

Yn gywir,

**Delyth Jewell AS**
**Cadeirydd y Pwyllgor**

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg.

We welcome correspondence in Welsh or English.